**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**18.09.2025 @ 7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO Y CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Elgan Williams, bawb i'r cyfarfod.

2. **PRESENNOL**
   Y Cynghorydd Mel Briant;
   Y Cynghorydd Ieuan Davies;
   Y Cynghorydd Ifan Lloyd Davies;
   Y Cynghorydd Gareth Edwards;
   Y Cynghorydd Richard Jones;
   Y Cynghorydd Gareth Owen;
   Y Cynghorydd Elgan Williams a
   Eleri Thomas (Clerc).

3. **YMDDIHEURIADAU**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Alun Price Jones, y Cynghorydd Angharad Jones, y Cynghorydd Non Jones a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH) am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YR HEDDLU**
   **Darparodd SCCyrH John Evans y wybodaeth ganlynol am faterion yr heddlu am y mis diwethaf:**

   ASB / Aflonyddwch :0

   Byrgleriaeth : 0

   Difrod Troseddol : 0

   Lladrad : 0

   Ymosodiad Trais : 1
   Ar 27/07/25 gwnaed adroddiad i'r heddlu gan drydydd parti bod cwsmer benywaidd yn Nhafarn y Teifi wedi cael ei hymosod arni gan gwsmer benywaidd arall. Mynychodd yr heddlu a chanfod gan bobl a oedd yn bresennol fod anghytundeb geiriol wedi bod heb unrhyw ymosodiad wedi'i weld. Nid oedd y fenyw yr honnir yr ymosodwyd arni yn dymuno mynd ar drywydd cwyn ac roedd yr achos wedi'i gau.

   Twyll : 0

   Amrywiol:

   Cododd SCCyrH Evans ymwybyddiaeth o Sgamiau Cyfredol, a adroddwyd gan Drigolion ardal Heddlu Dyfed Powys :-

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau: (DWP) Taliadau Tanwydd Gaeaf**
Roedd testun sgam, mewn cylchrediad a honnwyd iddo gael ei anfon gan y DWP yn annog unigolion i glicio ar y ddolen a chyflwyno'u manylion. Honnai y gallent fod yn gymwys i £200-£300 i gynorthwyo â biliau gwresogi'r gaeaf.
Sgam!

**Sgamiau Post**
Gwelodd HDP (Heddlu Dyfed Powys) gynnydd mewn sgamiau post. Roedd y rhain yn sgamiau nodweddiadol fel cyfaddawdu banc, adfer twyll ac ati; fodd bynnag, cyflwynwyd y cyswllt cychwynnol trwy lythyr. Ymddangoswyd bod y llythyr wedi dod dan law gorff swyddogol fel Banc, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Ombwdsmon Ariannol. Yna anogwyd y dioddefwr i gysylltu â'r rhif ffôn a restrwyd ar y llythyr. Nid oedd y rhifau ffôn yn gysylltiedig â'r cwmnïau swyddogol

5. **DATGANIAD O FUDDIANT PERSONOL A RHAGFARNLLYD: DIM.**

6. **CADARNHAU COFNODION 17 Gorffennaf 2025**
**CYNIGIWYD (Y Cynghorydd Richard Jones); EILIWYD (Y Cynghorydd Mel Briant)** a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion 17eg Gorffennaf 2025 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION SY'N CODI**

**7.1 Ardal Chwarae Pantyfedwen**

**7.1.1 Derbyniwyd £1,612 dan law Grant Cyfalaf Darpariaeth Chwarae Ceredigion.**
10% o gyllid cyfatebol ei angen ar gyfer y prosiect.
Ystyriwyd Ffens Burnell (4 panel) ar gyfer y Parc.
**Cytunwyd:** i glustnodi sylw i Grant y Loteri Genedlaethol.

**7.2 Lloches Fws Newydd Ffair Rhos**
Disgwylir clywed am y camau nesaf dan law GS Ceredigion.

**7.3 Bin Graeanu: Heol y Bannau**: Roedd y Cynghorydd Richard Jones wedi cysylltu â'r Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion. **CYTUNWYD** prynu'r bin graean a'r halen; £326.90. Rhaid talu am yr halen / graean ar yr achlysur cyntaf.

**7.4 Bioamrywiaeth Adran 6**: Gwaith ar y gweill. Y Cynghorydd Mel Briant yn rhoi sylw i'r mater.

**7.5 Hen Ffynnon y Pentref:** Nododd cyfathrebiad gan Mr Chris Harris, Cadeirydd Coedybont, fod disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru atgyweirio/disodli'r ffens o amgylch y ffynnon, yn ystod yr wythnos 5-12 Awst 2025.

**7.6 Clymog Japaneaidd (Japanese Knotweed) Glan-yr-Afon:**
**Adroddwyd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.** Gofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn â lleoliad y clymog Japaneaidd er gwaethaf datgan bod y planhigyn wedi tyfu y tu ôl i 12/13 Maesydderwen ac ar lan yr afon. Cyflwynwyd gwybodaeth pellach.

**7.7 Eiddew ar Bont y Pentref:** adroddwyd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**7.8 Adleoli'r fainc o Gwm Lluest:** cytunwyd i'w hadleoli i'r Parc.

7.9 **Torri Glaswellt o gwmpas y Pentref:** Derbyniodd Mr Dilwyn Benjamin gontract blwyddyn ar gyfer torri glaswellt o gwmpas y Pentref ym 2025.

7.10 **Materion a gyflwynwyd gan aelodau o'r cyhoedd yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Mai 2025:**

**7.10.1 Camfa** angen ar y llwybr cerdded ym Mharc Carafanau Bryn Gors.

**7.10.2 Llwybr cerdded** o'r Ysgol Gynradd i Ffair Rhos: roedd angen giât ar hyd y llwybr hwn.

**7.10.3 Llwybr cerdded ar hyd yr** afon yng nghyffiniau Dolebolion: angen cynnal a chadw – i hysbysu Eifion Jones Cyngor Sir Ceredigion.

**7.10.4 Adeilad blaenorol "**Cyfleusterau Cyhoeddus" Bont. Mae coed yn gordyfu yn y cyffiniau. Roedd goleuadau stryd yn angenrheidiol yn y lleoliad hwn a ger "Arhosfa."

**7.10.5 Lôn Fach: golau stryd yn angenrheidiol** ar ddechrau ac ar ddiwedd y Lôn. Glaswellt angen ei dorri yn Lôn Fach, ardal yr oedd CS Ceredigion wedi ymdrin â hi, yn y gorffennol. Cytunwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'r Cynghorydd Ifan Davies drefnu cyfarfod safle â Brian, Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion mewn perthynas â 7.10.4 a 7.10.5.

7.11 **Pafiliwn y Bont:** Mynegodd yr aelodau gonsyrn mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol yn ymwneud â Phafiliwn y Bont. Cytunwyd gofyn am gyfarfod, unwaith eto â Fwrdd y Pafiliwn gyda'r bwriad o estyn help llaw.

7.12 **Cerbyd wedi'i barcio ar y Glas**: Y Cyngor Cymuned i wneud ymholiadau pellach mewn perthynas â'r sefyllfa.

7.13 **Pwyllgorau:**
Neuadd Pantyfedwen: Ffair Gŵyl Grog: Dydd Iau 25 Medi, Neuadd Pantyfedwen: Cytunwyd trefnu stondin er budd Neuadd Pantyfedwen i gynnwys, yn bennaf, Cyfleuster Dartiau.

## 8. GOHEBIAETH

8.1 **Un Llais Cymru** Cyfarfod Ar-lein Pwyllgor Ardal Ceredigion, Dydd Llun 29 Medi 2025 am 7pm. Er gwybodaeth

8.2 **Coed y Bont** cais am lythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned i ofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru adnewyddu eu Cytundeb ym 2026. **CYTUNWYD.**

8.3 **Cynlluniau Lle: Llunio Lle –** Prosiect Creu Lleoedd Ceredigion: Gohebiaeth gan Mr Chris Jones, Arbenigwr Lleoedd, yn gofyn am gyfarfod â dirprwyaeth y Cyngor Cymuned. Cynigiwyd, Mercher, cyntaf o Hydref am 3pm yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen. i gadarnhau â Mr Chris Jones.

8.4 **Gohebiaeth arall: Er gwybodaeth yn unig - roedd llawer o negeseuon e-bost wedi'u hanfon ymlaen at Gynghorwyr, rhwng cyfarfodydd, yn electronig.**

## 9. CYNLLUNIO

9.1 **Cais Cynllunio: A250659:** Ymgeisydd: Mr Tudur Ellis, Dŵr Cymru. .
Lleoliad: Cronfa Ddŵr Pwll y Gwaith, Ystrad Meurig, SY25 6BT.
Cynnig: Storio offer a ffensys dros dro er budd diogelwch.
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim gwrthwynebiad.

**10. CYLLID**

**10.1 Archwilio Cymru: Archwiliad Blynyddol:** Cymeradwywyd y cyfrifon gan yr Archwilwyr Allanol Grant Thornton. CYTUNWYD: arddangos y rhybudd cwblhau'r archwiliad yn y gymdogaeth a cynnig cyfle i etholwyr i arsylwi ar y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25.

**10.2 Banc Barclays:** Pryderon mewn perthynas â diweddaru llofnodwyr a manylion cyswllt y clerc. Roedd y Cynghorydd Non Jones (llofnodwr) a'r Clerc wedi ymweld â Hwb Barclays, Llanbedr Pont Steffan ar achlysuron gwahanol mewn ymgais i ddatrys y mater. Bydd yn rhaid i'r Cynghorydd Gareth Owen (llofnodwr) ddiweddaru'i fanylion. Dylid dileu enw'r Cynghorydd a'r Llofnodwr blaenorol sef Mr Doug Rowbotham. Trefniadau'n parhau.

**TALIADAU**

**10.3 Cyflog y Clerc: Awst 2025** £238.33; Treuliau: £62.57

**10.4 Llogi Neuadd Bentref Pantyfedwen ar gyfer cyfarfodydd misol:** £15

**DERBYNEBAU**

**10.5 Cyfrif Busnes** £0.03 llog

**10.6 Llog Cyfrif Premiwm Busnes (Ysgoloriaeth)** £0.90

**10.7 12.09.25 Cyllid Grant Cyngor Sir Ceredigion** £1,612.00

**10.8 Praesept yn rhannol Cyngor Sir Ceredigion** £2,903.33

**11. Eitemau ar gyfer Facebook:** Mannau Croeso Cynnes Grant o £1,000 ar gael dan law CS Ceredigion. Dyddiad cau 5.10.2025.

**12. UNRHYW FUSNES ARALL**

**12.1 Presenoldeb yng nghyfarfodydd misol y Cyngor Cymuned: PENDERFYNWYD** neilltuo sylw i'r mater.

**12.2 Cytunwyd gofyn tybed a fyddai'n bosibl** adnewyddu'r llinellau melyn dwbl tu allan i Garej Glanteifi, Bont, gan fod y llinellau blaenorol wedi pylu, yn enwedig ar ôl i'r Bwrdd Trydan ymwneud â gwaith, yn y cyffiniau.

**12.3 Roedd baw cŵn yn broblem barhaus** o fewn y Pentref. Cytunwyd cysylltu â Ch. S Ceredigion i ofyn a oedd arwyddion sy'n gwahardd yr arfer ar gael a chwistrell at y diben hwn.

**Gan nad oedd unrhyw fusnes arall, daeth y cyfarfod i ben am 8.35pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 16 Hydref 2025 @7pm.**

**Llofnod/ Dyddiad ----------------------------------------------------------------------------------------**